

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

9(v3)

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Dadl: Canlyniad Refferendwm yr UE

(90 munud)

NDM6045 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

4 Cynigion i sefydlu Pwyllgorau

(5 munud)

NDM6034 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

NDM6035 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): newid yn yr hinsawdd, ynni, rheoli cyfoeth naturiol; cynllunio; lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

NDM6036 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): diwylliant; y celfyddydau; yr amgylchedd hanesyddol; y Gymraeg; cyfathrebu; darlledu a'r cyfryngau.

NDM6037 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisiau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafnidiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

NDM6038 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisiau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tlodi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

NDM6039 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cynnwys y meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

NDM6040 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn i ystyried unrhyw fater a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

NDM6041 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1 yn sefydlu Pwyllgor Deisebau i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 23.

NDM6042 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i graffu ar waith y Prif Weinidog o safbwynt unrhyw fater sy'n berthnasol i'r gwaith o arfer swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

NDM6043 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1 yn sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 22.

5 Cynnig i newid enw'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dros dro

(5 munud)

NDM6044 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3 yn cytuno y caiff y Pwyllgor Dros Dro ar Faterion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a sefydlwyd ar 15 Mehefin 2016, ei ailenwi'n Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Ei gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

6 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 17 mewn perthynas â Gweithrediad Pwyllgorau

(5 munud)

NDM6047 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2016; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 17, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

Dogfen Ategol

[Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 17 – Gweithredu Pwyllgorau'](#)

7 Datganiad gan y Prif Weinidog: y Rhaglen Ddeddfwriaethol

(45 munud)

- 8 Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Lansio'r Ymgynghoriad ar Weithredu Cyfnod 1 y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) – TYNNWYD YN ÔL
(0 munud)
- 9 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Cyrff Llywodraethu Ysgolion – TYNNWYD YN ÔL
(0 munud)
- 10 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: y Lluoedd Arfog
(30 munud)
- 11 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – TYNNWYD YN ÔL
(0 munud)
- 12 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Strategaeth Ffyrdd a Gwaith Stryd – TYNNWYD YN ÔL
(0 munud)
- 13 Dadl: Ail-enwi'r Cynulliad Cenedlaethol yn "Senedd" – WEDI EI OHIRIO I 5 GORFFENNAF
(0 munud)

NDM6048 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno:

(a) Y dylid newid ei enw i "Senedd Cymru" ar y cyfle cyntaf; ac

(b) Y dylai gael ei adnabod yn answyddogol gan yr enw hwnnw hyd nes y gall enw o'r fath gael ei ffurfioli.

Cyflwynwyd y Gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 – [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai'r Cynulliad newid ei enw i adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol.

2. Yn gwahodd y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad i ystyried goblygiadau newid o'r fath a'r ffordd orau i'w roi ar waith.

14 Cynnig i ddyrannu cadeiryddion pwyllgorau i'r grwpiau plaid

(5 munud)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2A, yn cytuno mai'r grwpiau gwleidyddol y caiff cadeiryddion pwyllgorau eu hethol ohonynt fydd fel a ganlyn:

- (i) Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Llafur;
- (ii) Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig – UKIP;
- (iii) Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – Llafur;
- (iv) Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Plaid Cymru;;
- (v) Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Ceidwadwyr Cymreig;
- (vi) Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – Llafur;
- (vii) Y Pwyllgor Cyllid – Plaid Cymru;
- (viii) Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Plaid Cymru;
- (ix) Y Pwyllgor Deisebau – Llafur;
- (x) Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Ceidwadwyr Cymreig;

(xi) Y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn – Llafur;

(xii) Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Llafur.

15 Cyfnod pleidleisio

16 Ethol cadeiryddion pwyllgorau

(15 munud)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 29 Mehefin

2016